Rhif yr Achos: 1600397/2016

# TRIBIWNLYSOEDD CYFLOGAETH

| | | |
|---|---|---|
| **Hawlydd:** | **Emma Thompson** | |
| **Atebydd:** | **Cyngor Bro Morgannwg** | |
| **Gwrandawyd yn:** | **Caerdydd** | **Ar: 26, 27, 29, 30 Tachwedd; 3, 4, 5, 6, 7, 10, 11, 12, 13, Rhagfyr 2018; yn y siambrau ar 14 Rhagfyr 2018** |
| **Gerbron:** | **Y Barnwr Cyflogaeth S J Williams**<br>**Aelodau:**<br>**Mr W Davies**<br>**Ms T Lovell** | |

**Cynrychiolaeth:**
**Hawlydd:** Mrs Thompson
**Atebydd:** Ms Criddle, bargyfreithiwr

# DYFARNIAD

Dyfarniad unfrydol y tribiwnlys yw:

1. Ni chafodd yr hawlydd ei diswyddo'n annheg;

2. Ni wnaeth yr atebydd wahaniaethu yn erbyn yr hawlydd oherwydd ei hanabledd;

3. Ni wnaeth yr atebydd fethu yn ei ddyletswydd i wneud addasiadau;

4. Ni wnaeth yr atebydd aflonyddu ar yr hawlydd.

# RHESYMAU

**Rhagarweiniad**

1 Yn ôl ei hawliad i'r tribiwnlys, mae'r hawlydd yn honni ei bod wedi cael ei diswyddo'n annheg gan yr atebydd, bod yr atebydd wedi gwahaniaethu yn ei herbyn oherwydd ei hanabledd, wedi methu yn ei ddyletswydd i wneud addasiadau ac wedi aflonyddu arni trwy ei ymddygiad yng nghyswllt ei hanabledd.

2 Ar ran yr hawlydd, bu i Mrs Thompson, cynrychiolydd proffesiynol yr hawlydd a mam yr hawlydd, ddangos tystiolaeth yr hawlydd a Mrs Val Burbidge. Ar ran yr atebydd, bu i Ms Criddle ddangos tystiolaeth gan Jenny Ford, Gerard McNamara, Sue Alderman, Christopher Elmore AS, Robert Green, Andrew Thompson, Geraint Hilbourne, Rhys Jones, Dr Ian Johnson, Dr Mathew Griffiths a Lyn Cosgrove. Bu i'r holl dystion roi eu prif dystiolaeth ar ffurf datganiadau ysgrifenedig a gafodd eu darllen gan y tribiwnlys ymlaen llaw. Roedd y ddau ddatganiad tyst ar gyfer yr hawlydd yn 170 o dudalennau wedi'u teipio i gyd.

3 Yn y gwrandawiadau rhagarweiniol a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017 a 25 Hydref 2018, gwnaethpwyd gorchmynion rheoli achos i baratoi ar gyfer y gwrandawiad terfynol, gan ddelio â nifer o faterion, yn cynnwys yr addasiadau angenrheidiol ar gyfer y gwrandawiad, y bwndel dogfennau a'r materion yr oedd angen gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Yn benodol, ar 6 Rhagfyr 2017, rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r partïon ddarparu rhestr derfynol o faterion; ar 25 Hydref 2018, cadarnhawyd bod yr hawlydd wedi cytuno i'r rhestr o faterion a baratowyd gan yr atebydd. Mae'r tribiwnlys wedi defnyddio'r rhestr honno fel fframwaith ar gyfer y dyfarniad hwn.

4 Cafodd y tribiwnlys fwndel o ddogfennau a oedd yn cynnwys tudalennau 1 - 1806, a bu iddo gyfeirio'n helaeth ato. Er gwaethaf y cyfarwyddyd y dylid cyfeirio at un bwndel a gytunwyd arno, daeth Mrs Thompson â bwndel ar wahân i'r

gwrandawiad, a oedd gyda thabiau ynddo ond heb rifau tudalennau; fodd bynnag, roedd yr holl ddogfennau yr oedd hi'n cyfeirio atynt hefyd wedi'u cynnwys yn y bwndel a baratowyd gan yr atebydd. Gyda chymorth gan Ms Criddle, roedd modd inni groesgyfeirio'r ddau fwndel yn foddhaol. Mae cyfeiriadau mewn cromfachau isod yn cyfeirio at dudalennau yn y bwndel a baratowyd gan yr atebydd. Bu i'r ddau gynrychiolydd baratoi eu hargymhellion cloi yn ysgrifenedig, a bu iddynt ddarparu rhagor o fanylder arnynt ar lafar. Cafodd y cynrychiolwyr eu gwahodd gan y Tribiwnlys i gyflwyno eu hargymhellion cloi gan gyfeirio at y materion yr oedd angen i'r tribiwnlys wneud penderfyniadau yn eu cylch.

**Materion rhagarweiniol**

5 Paratowyd datganiadau tyst yr hawlydd yn Saesneg, ond dewisodd yr hawlydd i gael ei groesholi gan Ms Criddle yn Gymraeg. Oherwydd ei bod yn cael trafferth gwefusddarllen wrth i Mr McNamara siarad, roedd hefyd eisiau gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg. At y dibenion hyn, darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, a oedd yn gweithio'n dda iawn, ac nid oedd y gwrandawiad yn hirach o'i herwydd.

6 Gofynnodd Mrs Thompson am addasiadau penodol ymlaen llaw ac yn ystod y gwrandawiad. Bu i'r atebydd gynorthwyo gyda pharatoi'r bwndeli ar gyfer y tabl tystion ar bapur glas a chynigiodd Ms Criddle newid lle gyda Mrs Thompson pan oedd yn ymddangos bod y golau yn yr ystafell tribiwnlys yn peri anhawster iddi, er na dderbyniwyd y cynnig ar y pryd. Gofynnodd Mrs Thompson am fath benodol o gadair hefyd. Yn y canlyniad, dywedodd ei bod yn fodlon â'r ffordd roedd staff y tribiwnlys wedi sicrhau eu bod hi a'r hawlydd yn gyfforddus, gyda beth alwodd hi'n 'gwasanaeth cwsmer hen fasiwn o safon'.

7 Am sawl rheswm, roedd yr amser a ddyrannwyd i'r gwrandawiad yn hirach nac efallai y byddai'r materion eu hunain wedi gallu cyfiawnhau. Roedd y dogfennau yn swmpus iawn a rhagwelwyd, oherwydd ei dyslecsia, efallai y byddai'r hawlydd angen rhagor o amser i ddarllen a mwy o gyfnodau seibiant yn ystod yr achos na'r

arfer. Roedd Mrs Thompson hefyd yn cael anawsterau oherwydd diffyg medrusrwydd corfforol, ac roedd angen rhagor o amser i ddod o hyd i'r dogfennau perthnasol. Yn y canlyniad, diolchodd y tribiwnlys i'r ddau gynrychiolydd am lynu'n agos at yr amserlen arfaethedig ar gyfer croesholi'r tystion, ac felly'n galluogi'r gwrandawiad i gael ei gwblhau o fewn yn amser a neilltuwyd iddo.

8 Ar 5 Rhagfyr, diwrnod 7 o'r gwrandawiad, cyflwynodd Mrs Thompson gais ysgrifenedig dyddiedig 4 Tachwedd (yn ôl pob tebyg, 4 Rhagfyr oedd y dyddiad a fwriadwyd), gan ymhelaethu arno ar lafar, i ddiwygio hawliad yr hawlydd i gynnwys honiadau bod Mr McNamara yn dethol aelodau o staff i ddilyn y drefn gallu oherwydd eu bod yn aelodau undeb llafur ac i wneud esiampl ohonynt, ac felly roedd yr atebydd wedi gwahaniaethu yn erbyn yr hawlydd oherwydd ei haelodaeth undeb llafur. Roedd Mrs Thompson hefyd yn ceisio dadlau bod yr atebydd wedi methu â darparu 'addasiadau rhesymol, gan fanteisio ar ffioedd tribiwnlys i atal gwneud cais oherwydd methiannau statudol.' Mi wnaeth y tribiwnlys ymneilltuo i ystyried yr honiadau.

9 Roedd elfen gyntaf y cais yn seiliedig ar ddeunydd yn natganiad tyst Mr McNamara, lle mae'n datgan, ym mharagraff 56, bod pedwar o athrawon a oedd wedi cael eu hadnabod gan Estyn fel rhai oedd yn darparu gwersi anfoddhaol i gyd yn aelodau o undeb llafur, ac felly bu iddo drafod y mater gyda chynrychiolwyr o'r undeb llafur leol cyn rhoi'r athrawon ar raglen gymorth anffurfiol (gweler isod ym mharagraffau 23-24). Roedd datganiad Mr McNamara wedi bod ym meddiant yr hawlydd ers 25 Hydref fan bellaf, ac, yn ôl barn y tribiwnlys, nid oedd yn darparu unrhyw dystiolaeth fel sail i'r cais presennol. Nid oedd unrhyw awgrym, yn y datganiad hwn neu'n unrhyw le arall, bod y pedwar athro/pedair athrawes wedi cael eu dethol i gael cymorth anffurfiol *oherwydd* eu haelodaeth mewn undeb llafur. At hynny, ni roddodd yr hawlydd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad bod yna gamwahaniaethu oherwydd aelodaeth mewn undeb llafur, ac nid oedd y cynrychiolwyr o'i hundeb llafur wedi mynegi unrhyw gynnen o'r fath. Yn ôl barn y tribiwnlys, nid oed yn bosib dadlau yn

seiliedig ar yr honiad bod yr atebydd wedi manteisio ar y ffaith bod ffioedd tribiwnlys wedi cael eu cyflwyno. Felly, cafodd yr honiadau eu gwrthod.

10 Yn y gwrandawiadau rhagarweiniol y cyfeirir atynt uchod, cafodd y cwestiwn o adnabod atebydd/atebwyr cywir yr hawliad hwn ei ystyried a'i ddatrys. Roedd yr atebydd cyntaf gwreiddiol, sef Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Y Barri, a ddaeth i ben pan gaeodd yr ysgol ei drysau ym mis Gorffennaf 2018. Yna, mi wnaeth yr ail atebydd dderbyn y byddai'n gyfrifol am unrhyw ddyfarniad o blaid yr hawlydd. Felly, cafodd yr atebydd cyntaf gwreiddiol ei ddileu o'r achos, ac aeth yr achos yn ei flaen yn erbyn yr unig atebydd a enwir uchod.

11 Bu i'r tribiwnlys egluro o'r cychwyn cyntaf y byddai'r gwrandawiad presennol ond yn mynd i'r afael â chwestiynau yng nghyswllt atebolrwydd, yn cynnwys ymddygiad cyfrannol, *Polkey*, ac unrhyw ddadlau yng nghyswllt casgliadau oherwydd methiant i ddilyn cod ymarfer ACAS.

**Y ffeithiau a ganfuwyd gan y tribiwnlys**

12 Rhoddwyd llawer o dystiolaeth ger ein bron, ac roedd llawer o'r dystiolaeth hon ar ei gorau ond yn berthnasol yn ymylol. Rydym yn fwriadol wedi cyfyngu ein canfyddiadau ffeithiol yn yr achos hwn i'r materion hynny sy'n berthnasol i'n penderfyniad.

13 Cytunwyd bod yr hawlydd yn, a bob amser wedi bod, yn unigolyn sydd ag anabledd. Mae ei hanabledd o ganlyniad i (1) dyslecsia a (2) nam ar y clyw. Mae dyslecsia a nam ar y clyw yr hawlydd yn gyflyrau gydol oes. Mi gafodd ddiagnosis pan oedd yn mynychu'r brifysgol, neu hyd yn oed cyn hynny. Mewn adolygiad cyn gwrandawiad mewn tribiwnlys cyflogaeth arall, bu i'r hawlydd gyflwyno hawliad yn erbyn Pwyllgor Rheoli YMCA Y Barri ac eraill, lle'r oedd hefyd wedi'i chyflogi ganddynt. Cafodd yr hawlydd ei dyfarnu'n unigolyn sydd ag anabledd yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010, yn rhinwedd ei dyslecsia a'i namau clyw. Yn ei ddyfarniad yn dilyn gwrandawiad ar 4 Mehefin 2013, nododd

y barnwr cyflogaeth bod effeithiau'r anafiadau roedd yr hawlydd wedi dioddef yn dilyn damwain ffordd (gweler isod) “yn amherthnasol ar ben ei hunain, ond roeddynt yn berthnasol o ran eu bod wedi gwaethygu anawsterau clyw [yr hawlydd]”. Yng ngoleuni'r honiadau dilynol a wnaed gan yr hawlydd, mae'n werth nodi bod y barnwr cyflogaeth wedi nodi bod “y prifathro yn ystyriol iawn ac er bod gwaith yn cael ei ddychwelyd iddi'n aml, mae'r [prifathro] yn gallu cywiro rhywfaint o'r gwaith ei hun" (gweler Dyfarniad, paragraff 21).

14 Nid oed canfyddiad, a ni awgrymwyd inni, bod yr anafiadau corfforol roedd yr hawlydd wedi’u dioddef yn y damwain ffordd wedi arwain, yn eu hunain, at nam o’r fath y cyfeirir ato yn adran 6 Deddf Cydraddoldeb 2010.

15 Roedd yr hawlydd wedi hyfforddi fel athrawes Cymraeg ail iaith. Wedi iddi gymhwyso yn 1999, cafodd ei chyflogi fel athrawes Cymraeg ail iaith yn Ysgol Gyfun Y Barri (BCS), lle bu iddi weithio hyd nes cafodd ei diswyddo, a ddaeth i rym ar 31 Awst 2016.  Roedd yr ysgol yn ysgol cyfrwng Saesneg yn nhref Y Barri ym Mro Morgannwg, sy’n ardal o Gymru lle mae’r mwyafrif o’r boblogaeth yn siarad Saesneg. Nid oedd Cymraeg yn bwnc poblogaidd yn yr ysgol. Pan ymunodd yr hawlydd â'r ysgol, David Swallow oedd y pennaeth hyd at ei ymddeoliad ar 31 Rhagfyr 2011. Cafodd Gerard McNamara ei benodi'n bennaeth ym mis Medi 2012, ac yn y cyfnod interim, roedd y dirprwy bennaeth, Jennifer Ford, yn gweithredu fel pennaeth dros dro. Hyd at mis Awst 2011, pennaeth yr adran Gymraeg oedd Gareth James; wedyn roedd Anwen Jones yn bennaeth yr adran Gymraeg hyd at 2014, ac yna cafodd ei holynu gan Geraint Hilbourne.

16 Roedd yr hawlydd yn gwbl ymwybodol o'i dyslecsia a'i nam ar y clyw trwy gydol ei chyfnod yn yr ysgol. At hynny, nid oedd wedi bod yn gyfrinachol am y materion hynny ac roedd yr ysgol hefyd yn gwbl ymwybodol ohonynt bob amser. Ni ofynnodd yr hawlydd am unrhyw addasiad i’w hamgylchedd gwaith yn ystod cyfnod cynnar ei chyflogaeth.

17 Ym mis Mawrth 2012, roedd yr hawlydd yn rhan o ddamwain ffordd a chafodd anafiadau, a arweiniodd at hawliad sifil am iawndal ar gyfer anafiadau personol, a gafodd ei gyfaddawdu. Bu i'r Tribiwnlys ddarllen nodiadau cydamserol yn cofnodi 'mân anaf i'r pen', ynghyd ag adroddiadau orthopedig a seiciatrig yn ddiweddarach a oedd yn rhoi'r argraff gyffredinol o, ar yr un llaw, anafiadau meinwe feddal, anafiadau cyhyrysgerbydol, ac anaf i'r pen, lle disgwyliwyd i'r hawlydd wella o fewn misoedd, ac, o bosib, PTSD a oedd wedi para am 6 mis; ac, ar y llaw arall, cwynion am symptomau parhaus gan 'hanesydd gwael ac anghyson' (Adroddiad Professor Maden, 20 Mehefin 2018, t. 1606 a t. 1631) nad oedd yn gyson â'r hanes cychwynnol ac sy'n cynnwys elfen ffug. Roedd Dr Attwood (adroddiad 2 Mai 2018, t. 1602) yn ystyried bod yr hawlydd yn dioddef 'anhwylder gorbryder â ffobia'. Roedd Mrs Thompson yn cyfeirio at y damwain tro ar ôl thro fel digwyddiad lle 'bron iddi dorri ei phen (*near decapitation)*' a bod y damwain wedi peryglu bywyd yr hawlydd. Roedd y tribiwnlys o'r farn bod hyn yn gor-ddweud yr holl beth a daeth i'r casgliad bod gan yr hawlydd dueddiad cryf, yn fwriadol neu fel arall, i orliwio effeithiau ei hanafiadau.

18 Yn dilyn ei damwain ffordd ar 12 Mawrth 2012, roedd yr hawlydd yn absennol o'r gwaith o 14 - 31 Mawrth i gychwyn, yna dychwelodd i'r gwaith o 23-27 Ebrill, ac yna'n absennol o'r gwaith eto hyd at 22 Hydref 2012, pan ddychwelodd yn raddol.

19 Cyfeiriwyd at dystiolaeth a ddarparwyd gan David Swallow (t.1298ff.) at ddibenion hawliad anaf personol yr hawlydd. Roedd Mr Swallow yn cydnabod bod 'neilltuo amser cwricwlwm yn broblem barhaus ar gyfer Cymraeg. Gan nad oedd llawer o ddiddordeb yn y pwnc, ynghyd â chanlyniadau siomedig, roedd yn anodd cyfiawnhau neilltuo llawer o amser cwricwlwm i'r pwnc.' Er bod amserlenni yn amrywio gydag amser ac yn amrywio ar draws y blynyddoedd gwahanol, fel arfer roedd yna 2-3 gwers Cymraeg ym mhob pythefnos.

20 Roedd Mr Swallow hefyd wedi gwneud sylwadau perthnasol am allu'r hawlydd fel athrawes, gan ddatgan ei farn bod 'perthynas Emma gyda'r disgyblion yn gallu

dirywio pan oedd anghytundeb... Roedd Emma yn cael trafferth rheoli dosbarthiadau a disgyblion nad oedd â diddordeb yn y pwnc. Roedd yn cael trafferth trefnu ei hun a'r dosbarth er mwyn dysgu'r disgyblion hynny'n effeithiol. O'r hyn rwy'n ei gofio o'i hystafell ddosbarth, roedd wastad yn edrych yn anhrefnus...' ac 'Roedd gwendidau Emma o ran dysgu wastad yn peri problem fawr iddi o ran bod yn effeithiol yn ei rôl' a 'Byddai, rwy'n credu, wedi parhau i gael trafferthion yn yr ysgol ac rwy'n meddwl y byddai'n bosibl y byddai wedi gadael yr ysgol maes o law.' Mae'n werth nodi bod y sylwadau hyn yn dod gan bennaeth yr oedd yr hawlydd yn dweud bod ganddi berthynas dda ag ef, ac mae'n berthynas a gychwynnodd cyn ei damwain ffordd. Maent yn mynd yn groes i'r achos a gyflwynwyd i ni ar ran yr hawlydd, sef (a) cyn i Jennifer Ford, ac yna Gerard McNamara, gymryd y rôl pennaeth ymlaen, nid oedd unrhyw un wedi canfod diffygion gyda'i dysgu, a (b) dim ond ar ôl ei damwain bu iddi gael unrhyw anhawster yn y gwaith, a (c) ei bod yn athrawes dda a gafodd ei thanseilio gan ymdrechion Christopher Elmore, Gerard McNamara, ac eraill. Byddwn yn dychwelyd i'r cynhennau hynny isod.

21 Dywedodd Jennifer Ford (datganiad tyst para. 19) bod ganddi bryderon am allu'r hawlydd i ddysgu a'i gallu i reoli dosbarth cyn ei damwain, a bod y gwendidau hyn wedi dod i'r amlwg ar ôl i Anwen Jones ddod yn bennaeth yr adran yn ystod cyfnod absenoldeb yr hawlydd ym mis Mawrth 2012. Roedd y safbwynt hyn yn cael ei ategu gan asesiad David Swallow (gweler y paragraff blaenorol). Yn seiliedig ar dystiolaeth David Swallow a Jennifer Ford rydym yn dod i'r casgliad bod gwendidau dysgu'r hawlydd wedi'u hadnabod ymhell cyn i Jennifer Ford ddod yn bennaeth dros dro, a chyn damwain yr hawlydd. Roedd rhai agweddau o'r gwendidau hynny yn hynod debyg i'r rhai a arweiniodd yn y pen draw at ei diswyddo.

22 Ar 4 Mai 2012 (t. 180), bu i'r hawlydd gael cyfarfod gyda Jennifer Ford i drafod dychwelyd i'r gwaith yn raddol yn dilyn ei damwain. Yn y cyfarfod hwnnw, rhoddodd Ms Ford copi o drefn gallu'r atebydd i'r hawlydd.

23 Yn ystod absenoldeb yr hawlydd, roedd Mr McNamara wedi cael ei benodi i’r swydd pennaeth a dechreuodd yn ei swydd ym mis Medi 2012. Cyflwynodd Mr McNamara yr hyn y cyfeiriwyd ato fel trefn anffurfiol, a elwir yn Rhaglen Gefnogi i Unigolion. Y bwriad oedd iddo ragflaenu a, gan obeithio, osgoi’r angen am drefn gallu ffurfiol. Oherwydd y pryderon oedd wedi codi, rhoddwyd yr hawlydd ar y rhaglen gefnogi hon, yn cychwyn ar 25 Ebrill 2013, gyda thri targed gwella penodol: cynllunio gwersi, rheoli dosbarth ac ansawdd marcio gwerslyfrau (t. 218).

24 Ym mis Mawrth 2013, roedd yr ysgol yn destun adolygiad ffurfiol gan Estyn, yr arolygiaeth dros addysg yng Nghymru, a gyhoeddodd ei adroddiad ym mis Mai 2013. Roedd yr adroddiad yn gritigol o sawl agwedd ar berfformiad yr ysgol, yn cynnwys, ac sy'n berthnasol i'n penderfyniad, safonau'r ysgol o ran Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 (t.200). Hefyd, cyfeiriwyd yn benodol at bedwar o athrawon, a'r hawlydd oedd un ohonynt. Roedd y pedwar ohonynt i gyd yn destun y rhaglen gefnogi anffurfiol.

25 Roedd Mr McNamara wedi arsylwi'r hawlydd yn y dosbarth ar 16 Ionawr 2013, ac yn ystod y drefn anffurfiol cafodd gwersi’r hawlydd eu harsylwi ddwywaith eto ar 7 Mehefin 2013 gan Mr McNamara ac ar 22 Tachwedd gan Mr McNamara ar y cyd ag Anwen Jones. Yn yr holl arsylwadau, aseswyd bod y gwersi yn anfoddhaol. Penderfynodd Mr McNamara bod cynnydd yr hawlydd dan y drefn anffurfiol yn anfoddhaol, ac felly dylid ei rhoi dan drefn gallu ffurfiol yr atebydd. Cyflwynodd y rhybudd ffurfiol cyntaf i’r hawlydd ar 17 Ionawr 2014 a dechreuodd cam 1 o’r drefn ffurfiol. Nodwyd y materion penodol a oedd yn destun pryder yng nghyswllt yr hawlydd fel: cynllunio gwersi; rheoli ystafell ddosbarth; marcio. Yn dilyn apêl gan yr hawlydd, penderfynodd panel o lywodraethwyr i barhau gyda’r asesiad gallu ffurfiol.

26 Yn ystod cam 1 cafodd gwersi’r hawlydd eu harsylwi ar 31 Mawrth 2014 gan Jennifer Ford a Llinos Evans, pennaeth y gyfadran, ac ar 2 Ebrill 2014 gan Ms Ford. Mewn cyfarfod adolygu ar 28 Ebrill 2014, nodwyd fod y ddau sesiwn arsylwi wedi'u dyfarnu'n anfoddhaol. Unwaith eto, roedd yr hawlydd yn absennol o’r ysgol rhwng mis Mehefin 2014 a mis Mawrth 2015 oherwydd gorbryder a straen. Ar 1 Mai 2015, bu i Mr McNamara gyflwyno ail rybudd ysgrifenedig ffurfiol ar yr hawlydd a dechreuodd cam 2 o'r drefn ffurfiol.

27 Cafodd yr hawlydd ei harsylwi yn y dosbarth ar 4 Mehefin 2014 gan Anwen Jones, ac yn ystod cam 2 o'r drefn ffurfiol, cafodd gwersi'r hawlydd eu harsylwi ar 4 Mehefin 2015 gan Andrew Thompson, dirprwy bennaeth yr ysgol, ar y cyd â Geraint Hilbourne, ac eto ar 15 Mehefin 2015, gan Mr McNamara ar y cyd â Mr Hilbourne. Mewn cyfarfod adolygu ar 18 Mehefin 2015, nodwyd bod y ddau sesiwn arsylwi wedi'u dyfarnu'n anfoddhaol a phenderfynodd Mr McNamara symud yr hawlydd ymlaen i gam 3 o'r drefn ffurfiol, a fwriadwyd i bara am gyfnod o bedair wythnos. Ar 22 Mehefin cyflwynodd rybudd ysgrifenedig terfynol iddi.

28 Ar 15 Gorffennaf 2015, cafodd apêl yr hawlydd yn erbyn y penderfyniad i symud ymlaen i gam 3 o'r drefn ei gwrthod gan banel o lywodraethwyr. Nid oedd cynrychiolydd undeb llafur yr hawlydd, Geraint Davies, wedi dadlau bod yr hawlydd wedi bodloni gofynion cam 2, ond dadleuodd nad oedd y fframwaith cefnogi wedi'i roi ar waith yn llawn, ac felly, dylid ailadrodd cam 2. Roedd y panel o lywodraethwyr yn anghytuno.

29 Ym mis Gorffennaf 2015, cyflwynodd Estyn adroddiad dilynol, a oedd, ymysg pethau eraill, yn nodi bod safonau Cymraeg fel ail iaith yn parhau i fod yn destun pryder.

30 Yn ystod cam 3 o’r drefn ffurfiol, cafodd gwersi’r hawlydd eu harsylwi ar 23 Mehefin 2015 gan Andrew Thompson ar y cyd â Rhys Jones, ar 7 Gorffennaf gan

Rhys Jones ac ar 13 Gorffennaf gan Andrew Thompson ar y cyd â Rhys Jones. Rhys Jones oedd pennaeth Ysgol Gyfun Treorci, ysgol fraenaru a oedd yn gweithio gydag Ysgol Gyfun Y Barri i rannu arferion da. Mae Mr Jones yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, ac er nad yw'n athro Cymraeg arbenigol, mae ganddo lawer o brofiad yn arsylwi ac asesu gwersi gan athrawon eraill.

31 Mewn cyfarfod adolygu ar 2 Medi, a gafodd ei ohirio ar ddiwedd y tymor ysgol blaenorol, nodwyd fod y tair gwers arsylwi wedi'u hystyried yn anfoddhaol o ran cynnydd disgyblion a'r dysgu. Cyfeiriodd Geraint Davies, cynrychiolydd undeb llafur yr hawlydd, at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar y cysylltiad posibl rhwng perfformiad gwael ac anabledd (t.421) a gofynnodd am apwyntiad iechyd galwedigaethol ar gyfer yr hawlydd i geisio barn feddygol. Roedd Mr McNamara yn cytuno â hyn, ond gofynnodd pam nad oedd y mater o anabledd yr hawlydd wedi cael ei godi mewn apwyntiadau iechyd galwedigaethol blaenorol. Dywedodd yr hawlydd ei bod wedi cael diagnosis ar gyfer ei dyslecsia a'i nam ar y clyw yn y 1990au cynnar, roedd apwyntiadau iechyd galwedigaethol blaenorol wedi ymwneud â'i hanafiadau yng nghyswllt ei damwain, ac nad oedd unrhyw broblem wedi codi cyn ei damwain ac nid oedd wedi codi unrhyw beth am ei hanabledd yng nghyswllt y drefn gallu. Ar ôl i Ann Jones brocio rhywfaint, dywedodd yr hawlydd bod ei habsenoldeb o Mehefin 2014 i Mawrth 2015 oherwydd straen a achoswyd gan y drefn gallu.

32 Bu i’r hawlydd herio priodoldeb cael ei hasesu gan Rhys Jones, er roedd wedi cytuno iddo asesu ei gwersi yn flaenorol, gan nad oedd yn athro Cymraeg arbenigol. Bu iddi awgrymu hefyd ei bod wedi cael adborth llafar gan Geraint Hilbourne a oedd yn llawer mwy cadarnhaol na’i adroddiad ysgrifenedig. Cafodd y cyfarfod ar 2 Medi ei ohirio.

33 Cafwyd pedwar adroddiad: adroddiad golwg optometrig gan Eurfron Nyhan, dyddiedig 15 Medi (prin cyfeiriwyd ato ger ein bron yn flaenorol), adroddiad iechyd galwedigaethol gan Dr Joanna Lever, dyddiedig 25 Medi; adroddiad

atodol byr gan Dr Martin Andrew, dyddiedig 13 Hydref ac adroddiad gan Ann Rees o'r Ganolfan Ddysgu Dyslexia Action yng Nghaerdydd, dyddiedig 22 Hydref (t. 1548-1561).

34 Nododd Dr Lever bod dyslecsia yr hawlydd wedi'i ddiffinio fel anabledd (er na chyfeiriodd at nam clyw yr hawlydd) a bod y pyliau diweddaraf o salwch wedi ymwneud â phroblemau yng nghyswllt y damwain ffordd a straen yn y gweithle. Roedd y ddau beth olaf wedi arwain at symptomau gorbryder sylweddol, a oedd wedi'u gwaethygu gan straen y drefn gallu. Ym marn Dr Lever, roedd cyflyrau'r hawlydd (sef y problemau eilradd bu iddi adnabod) yn cael effaith andwyol ar ei gallu i gyflawni ei rôl, a byddai'r drefn gallu yn cynyddu lefelau pryder yr hawlydd ymhellach a allai, yn ei dro, gael effaith ar ansawdd ei dysgu. Cynghorodd Dr Lever: dylai'r hawlydd gael amser ychwanegol i baratoi gwersi a marcio, ei bod yn cael gwaith papur ar gyfer unrhyw gyfarfodydd gallu ymlaen llaw, o bosib mewn ffont mwy, a'i bod yn cael amser ychwanegol i ymateb; ac y gallai meddalwedd sy'n ymateb i lais fod yn fuddiol os oedd angen i'r hawlydd ysgrifennu adroddiadau ar ei gliniadur, ac efallai y byddai'n well iddi ddefnyddio cyfrifiadur a thaflunydd yn hytrach na bwrdd du neu fwrdd gwyn.

35 Nid oedd Dr Andrew, ar ôl trafod achos yr hawlydd gyda chydweithwyr uwch, yn meddwl bod yr hawlydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer PTSD.

36 Nododd Ms Rees nad oedd yr hawlydd yn teimlo bod ei dyslecsia yn cael effaith ar ei dysgu er roedd yn teimlo bod ei chyflwr yn gwneud rhai tasgau gweinyddol yn anoddach, fel ysgrifennu cynlluniau gwersi ac ysgrifennu adroddiadau yn Saesneg, ac mi'r oedd yn teimlo bod y straen roedd yn ei brofi pan roedd ei gwersi yn cael eu harsylwi yn golygu nad oedd yn perfformio i'r safon arferol o ddysgu. Pwysleisiodd Mr McNamara, a oedd hefyd wedi cyfarfod â Ms Rees, nad oedd ganddo unrhyw broblemau gyda'i sillafu neu'r ffordd roedd yr hawlydd yn ysgrifennu adroddiadau; y prif bryder oedd cynnydd y plant yn ei dosbarthiadau. Rhestrodd Ms Rees pymtheg o addasiadau a oedd eisoes wedi'u rhoi ar waith i

gefnogi'r hawlydd, yn cynnwys lwfans ar gyfer cynllunio a pharatoi gwersi (PPA) a oedd yn 12% yn y flwyddyn flaenorol ac yn 20% yn y flwyddyn gyfredol o'i gymharu â 10% ar gyfer athrawon eraill (t.1559). Nododd Ms Rees, wrth grynhoi, 'nid oedd y pennaeth yn ystyried anawsterau a all fod oherwydd dyslecsia Emma, er enghraifft cywirdeb sillafu ac ysgrifennu adroddiadau'n gywir, yn faterion pwysig. Nid yw Emma yn ystyried bod ei dyslecsia yn effeithio ar ei dysgu, ond mae'n adnabod ystod o broblemau a all gael eu gwaethygu gan ei dyslecsia yng nghyswllt y broses gallu, e.e. arsylwi gwersi a chyfarfodydd. Fodd bynnag, mae hi'n derbyn bod arsylwadau o wersi yn hanfodol ar gyfer yr holl athrawon ac felly ni all gael ei heithrio rhag cael ei harsylwi.'

37 Cyflwynodd Ann Rees nifer o argymhellion, yn cynnwys meddalwedd testun i leferydd; dogfennau mewn fformat electronig; arbrofi gyda maint papur, lliw papur a ffont, darparu agendâu ymlaen llaw; recordiadau sain o gyfarfodydd neu gofnodion electronig (t. 1560).

38 Yn ei llythyr ar 6 Hydref 2015 i Ann Jones, swyddog personél yr atebydd, mae'r hawlydd yn mynegi rhan o'i dadl, gyda llawer o'i chynnwys wedi'i chyflwyno ger ein bron. Ysgrifennodd: 'Tro ar ôl thro rwyf, yn fwriadol, wedi cael fy rhoi mewn sefyllfa lle byddaf yn siŵr o fethu, i fy niswyddo heb unrhyw fwriad o ddilyn unrhyw gamau gweithredu i fy nghynorthwyo, gyda'ch gilydd rydych wedi erydu fy hunanhyder a fy hunangred. Rwyf bellach wedi ystyried y sefyllfa ac rwy'n credu fy mod i'n athrawes ardderchog sydd wedi cael ei thanseilio yn fwriadol ac yn ddideimlad...'

39 Yn dilyn nifer o ohiriadau, cafodd y cyfarfod ar 2 Medi i adolygu cam 3 o'r drefn ffurfiol ei gynnal ar 5 Tachwedd 2015. Cyfeiriodd Mr McNamara achos yr hawlydd at banel disgyblu a diswyddo y corff llywodraethu a dywedodd y byddai'n argymell diswyddo. Cynhaliwyd cyfarfod o'r panel ar 9 Rhagfyr, a daethpwyd i'r casgliad nad oedd y panel am wneud penderfyniad terfynol, gan

gytuno i gyfarfod i drafod eto ar 14 Rhagfyr a chyhoeddi ei benderfyniad i'r partïon ar 17 Rhagfyr.

40 Ar 17 Rhagfyr, cyhoeddodd y panel ei benderfyniad bod polisi a gweithdrefnau'r atebydd wedi'u dilyn yn gywir, ond roedd y panel eisiau cael gafael ar ragor o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad terfynol (t. 560). Bu iddynt gyfarwyddo y dylid ymestyn cam 3 o'r broses am gyfnod o bedair wythnos, yn cychwyn ar 4 Ionawr 2016; byddai'r cyfnod hwnnw yn cynnwys: dwy wers arall yn cael eu harsylwi gan athro/athrawes Cymraeg arbenigol; dau ymweliad i'r ysgol fraenaru (Ysgol Gyfun Treorci) yn yr wythnos gyntaf o'r cyfnod o bedair wythnos, yn cynnwys sesiwn yn arsylwi dwy wers Gymraeg fel ail iaith; unigolyn cyswllt newydd i'w adnabod gan yr hawlydd; o leiaf dau gyfarfod rheolaidd gyda phennaeth yr adran wedi'u trefnu yn yr amserlen, gan gymryd cofnodion a gytunwyd arnynt; cefnogaeth briodol gan athro/athrawes Cymraeg i'w darparu. Ystyriodd y panel yr adroddiadau iechyd galwedigaethol, yr adroddiad dyslecsia a'r adroddiad optometrig, ac ystyriodd bod darparu rhagor o amser i baratoi a chynllunio gwersi (PPA) yn addasiad rhesymol a oedd yn berthnasol i gynllunio gwersi a'r asesiad gallu. Bu i'r panel bennu dyddiad dros dro o 11 Chwefror 2016 ar gyfer ailgychwyn y cyfarfod, lle byddai cynnydd yr hawlydd ar ôl yr estyniad amser o bedair wythnos yn cael ei ystyried.

41 Ar 18 Rhagfyr am 12.57, bu i'r hawlydd anfon neges e-bost at Mr McNamara yn cwyno ei fod wedi methu â'i hysbysu am fanylion y ddau ymweliad i Ysgol Gyfun Treorci. Atebodd Mr McNamara am 13.12 fod Treorci wedi gofyn i'r ymweliadau gael eu cynnal ar y dydd Iau a'r dydd Gwener o'r wythnos gyntaf o'r tymor, a rhag ofn nad oedd yr hawlydd yn edrych ar ei chyfrif e-bost dros gyfnod y gwyliau, byddai'n ysgrifennu ati gyda'r manylion, ond, beth bynnag, byddai ganddi ddigon o amser i baratoi pan ddychwelodd i'r gwaith ar 4 Ionawr. Yn ddiweddarach ar 18 Rhagfyr, am 17.47 bu i Mr McNamara anfon neges e-bost at yr hawlydd i wneud cofnod o'r ffaith ei fod wedi dod â'i lythyr yn bersonol i'w chartref ar ei ffordd adref am 14.36. Yn y dystiolaeth, gwnaeth yr hawlydd lawer o'r ffaith bod Mr McNamara wedi gwneud iddi gynhyrfu'n lân pan ddaeth i ymweld â'i chartref. Bu iddi gwyno, yn y lle cyntaf, nad oedd Mr McNamara wedi gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer ei hymweliadau i Threorci o fewn hanner diwrnod, ac yna cwynodd ei fod wedi dod a'i lythyr iddi yn bersonol i'w chartref i sicrhau ei bod yn cael y llythyr yn brydlon (roedd yr hawlydd wedi

dweud yn flaenorol nad oedd wastad yn edrych ar ei negeseuon e-bost). Nid oeddem yn gallu derbyn tystiolaeth yr hawlydd bod agor y drws i Mr McNamara wedi peri iddi ddioddef chwalfa nerfol (datganiad tyst, Chwefror 2018, paragraff 1238). Daeth y tribiwnlys i'r casgliad bod yr hawlydd yn bod yn hynod o afresymol ar y pwynt hwn.

42 Ar ddydd Sadwrn, 19 Rhagfyr, pan oedd Ysgol Gyfun Y Barri ar gau am gyfnod y gwyliau Nadolig, anfonodd Mrs Thompson lythyr a oedd dros 30 o dudalennau wedi'u teipio at Ann Jones, gan fynnu mewn geiriau cryf iawn ei bod yn cael ymateb ddim hwyrach na hanner dydd ar 24 Rhagfyr (t. 567ff.) Er bod y llythyr hwn yn achos eithafol, mae'n enghraifft berffaith o batrwm a oedd yn codi tro ar ôl thro, sef gohebiaeth gan Mrs Thompson a gyfeiriwyd at swyddogion yr atebydd, a oedd yn hirfaith, yn ormesol ac yn llethol, gyda geirfa cymhleth, heb fod angen. Roedd yr ohebiaeth weithiau dan enw Mrs Thompson ei hun neu dan enw'r hawlydd, (t. 599-603; 605-10). Yn y llythyr diwethaf mae Mrs Thompson yn ysgrifennu ar 29 Rhagfyr 2015, mae'n nodi bod yr hawlydd yn 'dal i wella yn dilyn PTSD'; nid oedd unrhyw gefnogaeth feddygol ar gyfer yr honiad hwn.

43 Ar 4 neu 5 Ionawr 2016, bu i'r hawlydd, gyda'i mam, fynychu apwyntiad gyda Nicola Johns, ymgynghorydd iechyd galwedigaethol. Roedd yr hawlydd a/neu ei mam yn anghytuno â barn Ms Johns a ni roddwyd awdurdodaeth i ddatgelu'r adroddiad dilynol yn ei gyfanrwydd i'r atebydd.

44 Ar 6 Ionawr 2016, bu i Mrs Thompson ffonio Nicola Johns yn datgan bod yr hawlydd ofn mynychu apwyntiad gyda'i meddyg teulu rhag ofn iddi gael ei diswyddo am gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith, a bod 'bywyd Emma mewn perygl'. Yn hwyr y noson honno, anfonodd Mr McNamara neges e-bost at yr hawlydd yn cyfeirio at y trefniadau ar gyfer wythnos gyntaf y tymor. Roedd yr hawlydd wedi mynegi ei dymuniad i ymweld ag Ysgol Bryn Hafren yn hytrach na Ysgol Gyfun Treorci oherwydd roedd y pellter i deithio yn llai; roedd asesiad risg straen am gael ei gynnal ar 7 Ionawr; a trefnwyd athro/athrawes llanw er mwyn iddi allu mynychu apwyntiad gyda'i meddyg teulu ar 8 Ionawr. Hefyd, gofynnodd Mr McNamara i'r hawlydd drefnu apwyntiad gydag ef i gadarnhau

bod yr holl agweddau ar y gefnogaeth i'w darparu ar gyfer yr hawlydd mewn lle. Ar ôl cael copi o'r neges e-bost hon, ysgrifennodd cynrychiolydd undeb llafur yr hawlydd, Geraint Davies, "Pam fod yna gymaint o stŵr wedi bod?" Pan gafodd cyfarfod gyda Mr McNamara ei drefnu ar gyfer 12 Ionawr am 12.30, ysgrifennodd yr hawlydd am 11.18 i ddweud nad oedd wedi cael 5 diwrnod o rybudd. Erbyn hyn roedd yn dod yn anodd iawn i'r atebydd yn gyffredinol, ac i Mr McNamara yn enwedig, reoli disgwyliadau'r hawlydd a bodloni ei cheisiadau.

45 Ar 21 Ionawr, bu i Mr McNamara wahardd yr hawlydd ar seiliau meddygol oherwydd ei fod wedi cael ei gynghori 'o ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gennych chi a'ch mam, ynghyd â'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael gan yr adran Iechyd Galwedigaethol a'ch Meddyg Teulu... ystyrir yw nad yw'n briodol i chi barhau i fod yn y gweithle...' (t. 784-86).

46 Mynychodd yr hawlydd a'i mam apwyntiad arall gyda Nicola Johns ar 27 Ionawr a datgelwyd adroddiad cyfyngedig yn cadarnhau nad oedd yr hawlydd yn ffit i weithio. Cafodd dystysgrif gan ei meddyg teulu yn nodi ei nad oedd yn ffit i weithio am y cyfnod 20 Ionawr - 11 Chwefror.

47 Ar 1 Chwefror, trwy lythyr, bu i'r corff llywodraethu atgoffa'r hawlydd y byddai'r panel a oedd yn ystyried ei hachos yn cyfarfod eto ar 11 Chwefror i ystyried ei chynnydd. Ysgrifennodd Mrs Thompson ar 3 Chwefror nad oedd yr hawlydd yn ffit i fynychu, ac felly, yn unol â hynny, penderfynodd y panel drefnu cyfarfod ar gyfer 29 Chwefror. Ysgrifennodd Dr Ian Johnson, cadeirydd y panel, '...byddwch yn gweld bod Mr McNamara wedi rhoi gwybod inni fod yna wahaniaeth yn y cyngor a gafwyd gan yr Adran Iechyd Galwedigaethol a gan eich meddyg, ac rwy'n deall eich bod wedi cael eich cynghori i ganiatáu i'r Adran Iechyd Galwedigaethol gysylltu â'ch meddyg ond eich bod wedi gwrthod y cais hwn. Rwyf hefyd yn deall eich bod wedi gwrthod datgelu dau adroddiad iechyd galwedigaethol yn dilyn cyfeiriadau iechyd blaenorol. Dalier sylw bydd y

pwyllgor yn gwneud penderfyniad ar sail yr wybodaeth a fydd ar gael iddynt yn y cyfarfod ar 29 Chwefror 2016'.

48 Mynychodd yr hawlydd a'i mam apwyntiad arall gyda Nicola Johns ar 24 Chwefror. Cafodd yr hawlydd dystysgrif arall yn datgan nid oedd yn ffit i fod yn y gwaith, a ni ddychwelodd i'r gwaith cyn iddi gael ei diswyddo.

49 Cynhaliwyd cyfarfod panel disgyblu a diswyddo'r corff llywodraethu ar 29 Chwefror. Ni fynychodd yr hawlydd. Gwrthodwyd cais gan Geraint Davies, cynrychiolydd undeb llafur a oedd yn cynrycholi'r hawlydd, am ohiriad fel bod yr hawlydd yn gallu gwella'n llawn, dychwelyd i'r gwaith a chwblhau'r cyfnod o bedair wythnos i ymestyn cam 3 o'r drefn, oherwydd nid oedd y cyfarwyddyd iechyd galwedigaethol wedi'i ryddhau ac nid oedd unrhyw arwydd o ran pryd byddai'r hawlydd yn ffit i ddychwelyd i'r gwaith. Yna gadawodd Mr Davies y cyfarfod. Clywodd y panel gan Andrew Thompson a Geraint Hilbourne, gyda'r ddau yn cadarnhau cywirdeb yr adroddiadau a baratowyd ganddynt yn dilyn arsylwi gwersi'r hawlydd. Penderfyniad y panel oedd dod â chyflogaeth yr hawlydd i ben ar y seiliau canlynol:

a. Dyfarniadau anfoddhaol cyson ar ei gallu i ddysgu;
b. Diffyg gwybodaeth feddygol i bennu dyddiad ar gyfer dychwelyd i'r gwaith;
c. Diffyg ymgysylltu ers y cyfarfod ar 16 Rhagfyr;
d. Gofynion yr ysgol a'r adran Gymraeg yn enwedig wedi'u pwysleisio mewn adroddiad Estyn fel bod angen cefnogaeth ychwanegol;
e. Cytunwyd ar yr estyniad amser am gyfnod o bedair wythnos i allu darparu cefnogaeth ychwanegol. Fodd bynnag, roedd yna ddiffyg ymgysylltu, gwrthodiad i ddarparu gwybodaeth iechyd galwedigaethol manwl ac roedd yr hawlydd i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch ar hyn o bryd ac nid oedd unrhyw ddyddiad dychwelyd hysbys.

50 Cadarnhawyd y penderfyniad gyda'r hawlydd mewn llythyr ar 8 Mawrth a oedd yn rhoi rhybudd iddi y byddai ei chyflogaeth gydag Ysgol Gyfun Y Barri yn dod i ben ar 31 Awst 2016. Roedd y llythyr hefyd yn hysbysu'r hawlydd bod ganddi'r hawl i apelio trwy nodi ei rhesymau o fewn pum diwrnod gwaith o'r dyddiad cafodd y llythyr.

51 Ysgrifennodd Mrs Thompson at gadeirydd y llywodraethwyr ar 9 Mawrth 2016 yn cyfeirio at 'y cydweithio "twyllodrus/anonest" ar a chyn 18 Hydref 2013 am 07:39, lle mae yna dystiolaeth bendant bod Emma Thompson wedi'i rhoi mewn sefyllfa lle byddai'n siŵr o fethu, yn fwriadol ac ar y cyd, gan Mr McNamara, Sue Alderman...ac Ann Jones" Byddwn yn dychwelyd isod i'r mater y mae'r llythyr hwn yn cyfeirio ato. Ysgrifennodd Mrs Thompson lythyr arall at gadeirydd y llywodraethwyr ar yr un dyddiad, yn cwyno am ymosod seiciatrig, erledigaeth ac aflonyddwch.

52 Ar 10 Mawrth, cyflwynodd Mrs Thompson apêl ysgrifenedig ar ran yr hawlydd, ynghyd â llythyr eglurhaol a oedd yn cynnwys 37 o dudalennau (t. 912 ff). Roedd y cwynion a wnaed yn eithafol. Cyfeiriodd at "hanes gwaith perffaith" yr hawlydd "cyn fendeta Chris Elmore" a "cynllwynio i ddiswyddo Emma Thompson", a "proses dwyllodrus" a "twyllo gan Chris Elmore i setlo hen gownt" a phroses "hynod esgeulus a maleisus" hyd at dweud "nad oedd tystiolaeth bod y cyfarfod [ar 29 Chwefror] wedi mynd yn ei flaen". Honnodd y byddai "unrhyw athro arall wedi pasio'r sesiwn arsylwi ond oherwydd dylanwad cryf Chris Elmore i setlo fendeta yn ei herbyn, ROEDD YN DWYLLODRUS ac ni adawodd iddi basio yn fwriadol" a gwnaeth nifer o honiadau difrifol iawn yn erbyn Chris Elmore yng nghyswllt ei fendeta honedig.

53 Yn ogystal â'r honiadau a wnaed yn erbyn yr atebydd a Mr Elmore, honnodd Mrs Thompson bod cynrychiolydd undeb llafur yr hawlydd, Geraint Davies yn "cysgu yn yr un gwely â'r cyflogwr cythruddol".

54 Trwy lythyr, ar 6 Ebrill, rhoddodd y corff llywodraethu wybod i'r hawlydd y byddai cyfarfod o'r pwyllgor apeliadau disgyblu a diswyddo ar 22 Ebrill yn ystyried ei hapêl. Trwy ei llythyr ar 12 Ebrill, cyfeiriodd Mrs Thompson at baragraff 7.4 trefn gallu'r atebydd a honnodd oherwydd dyddiad y gwrandawiad arfaethedig, roedd y llywodraethwyr wedi'u 'gwahardd rhag gwrando'r apêl oherwydd y terfyn amser." Mae Paragraff 7.4 o'r drefn yn datgan: *Gall y cyflogai apelio yn erbyn y penderfyniad hwn yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith o gael y penderfyniad ysgrifenedig. Rhaid i'r apêl gael ei gwrando o fewn 10 diwrnod gwaith o gael y llythyr apêl.*

55 Yn ei lythyr dyddiedig 13 Ebrill, bu i Mr Quigley, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol (Datblygiad a Chefnogaeth Ranbarthol) NASUWT, brotestio yn erbyn yr hawlydd am 'fygwth, gwneud honiadau eithafol tro ar ôl thro, a defnyddio iaith sarhaus heb fod angen' a methiant yr hawlydd i ddarparu cefnogaeth ar gyfer 'yr honiadau difrifol iawn rydych wedi'u gwneud ynghylch Cynghorydd Elmore [fel yr oedd ar y pryd].' Gyda phob tegwch i'r hawlydd, barn y tribiwnlys yw ei fod yn debygol iawn mai'r iaith yr oedd yn cwyno amdani oedd iaith a ddefnyddiwyd gan Mrs Thompson yn hytrach na'r hawlydd.

56 Ar 14 Ebrill ysgrifennodd Mrs Thompson lythyr, un hirfaith unwaith eto, yn dweud ei bod "...yn cymryd drosodd gan yr undebau yn swyddogol fel cynrychiolydd cyfreithiol Ms Thompson wedi 12 Ebrill 2016 3:15pm..." Mae geiriad penodol iawn y llythyr hwnnw yn bwrw amheuaeth ynghylch honiad Mrs Thompson ei bod wedi rhoi gwybod i'r atebydd yn ystod gwyliau'r ysgol dros y Nadolig ei bod yn gweithredu ar ran yr hawlydd yn lle'r undeb llafur. Daethpwyd i'r casgliad mai'r llythyr hwn oedd yr arwydd cyntaf gafodd yr atebydd ynghylch y newid yng nghynrychiolaeth yr hawlydd. Er gwaethaf y termau a nodir yn llythyr Mrs Thompson, roedd yn ymddangos bod NASUWT dan yr argraff fod angen iddynt barhau i gynrychioli'r hawlydd yn ei hapêl, a gofynnodd i ohirio'r gwrandawiad o'r 22 Ebrill fel bod eu swyddog yn gallu mynychu. Yn yr amgylchiadau hynny, nid oeddem yn gallu beirniadu'r atebydd am gytuno i hynny

er gwaethaf honiad Mrs Thompson bod yr atebydd yn gwybod nad oedd yr undeb yn gweithredu yn yr achos mwyach.

57 Cafodd dyddiad y gwrandawiad apêl ei ohirio o 22 Ebrill i 29 Ebrill, ac mewn ymateb i honiadau Mrs Thompson eu bod wedi'u gwahardd rhag gwrando'r apêl oherwydd y terfyn amser, eglurodd Antonia Forte, y rhesymau yn ei llythyr dyddiedig 15 Ebrill fel a ganlyn: "Rwy'n cydnabod bod yr apêl wedi'i threfnu y tu allan i'r terfyn amser o 10 diwrnod gwaith (fel y nodir yn adran 7.4). Mae yna amrywiaeth o resymau dros hyn, yn cynnwys cyfnod gwyliau'r Pasg, a phryd mae'r llywodraethwyr a chynrychiolydd undeb llafur Emma ar gael." Cyfeiriodd Antonia Forte hefyd at gymhlethdod yr achos, yr anhawster wrth geisio sicrhau panel o lywodraethwyr nad oedd wedi bod yn rhan o achos yr hawlydd yn flaenorol a'r ohebiaeth hirfaith a gafwyd gan Mrs Thompson ar ôl iddi gyflwyno'r apêl. Daeth i'r casgliad, 'Yng ngoleuni'r uchod, nid wyf yn teimlo bod oedi afresymol wedi bod wrth drefnu'r gwrandawiad apêl, ac rwy'n cadarnhau'r bwriad i barhau gyda'r trefniadau ar gyfer y gwrandawiad apêl ar 29 Ebrill 2016' er, cydnabuwyd ei fod tu allan i'r cyfnod o 10 diwrnod gwaith a ddarperir ar gyfer y drefn hon.

58 Ar 20 Ebrill, cadarnhaodd Nicola Johns bod y pedwar apwyntiad iechyd galwedigaethol roedd yr hawlydd wedi'u mynychu ers mis Ionawr wedi cynhyrchu pedwar adroddiad, a chytunodd yr hawlydd i ddatgelu'r ddau adroddiad olaf yn unig i'r atebydd.

59 Yn y gwrandawiad apêl a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, nid oedd yr hawlydd yn bresennol ac nid oedd ganddi gynrychiolaeth ychwaith. Roedd hyn oherwydd bod Mrs Thompson o'r farn bod yr apêl dan derfyn amser ac felly roedd yr hawlydd wedi ennill yr apêl trwy ddiffyg. Adolygodd y panel y cam anffurfiol a'r tri cham ffurfiol o'r drefn. Mi wnaethant ystyried y chwe aelod o staff Ysgol Gyfun Y Barri a Rhys Jones, pennaeth Ysgol Gyfun Treorci, a oedd wedi arsylwi gwersi'r hawlydd. Bu iddynt ystyried yr addasiadau a geisiwyd gan yr hawlydd oherwydd

ei hanabledd a'i hanafiadau, a chawsant wybod nid oedd yr hawlydd wedi cysylltu y problemau gyda'i gallu i ddysgu gyda'i hanableddau tan cam 3 o'r drefn. Ystyriwyd hefyd cwynion yr hawlydd yn erbyn staff yr atebydd, y llygredigaeth honedig rhwng staff yr atebydd, y pennaeth ac undeb llafur yr hawlydd a'r honiad o fendeta.

60 Clywodd y pwyllgor apêl dystiolaeth gan Mr McNamara, Geraint Hilbourne, Andrew Thompson a Rhys Jones. Roedd y pedwar ohonynt oll wedi arsylwi gwersi'r hawlydd. Dywedodd Mr McNamara nid oedd yr hawlydd erioed wedi gofyn am unrhyw gymhorthion neu addasiadau i gyflawni ei rôl cyn mis Medi 2015. Dywedodd mai'r nifer helaeth o'r gwaith darllen yr oedd rhaid i'r hawlydd ei wneud oedd darllen a marcio llyfrau disgyblion, ac na fyddai meddalwedd sy'n ymateb i lais wedi helpu'r hawlydd i wella ei dysgu. Cadarnhaodd Messrs Hilbourne, Thompson a Jones mai eu hasesiadau o ddysgu'r hawlydd oedd ei bod yn anfoddhaol.

61 Nododd y pwyllgor apêl roedd yr hawlydd yn un o bedwar o athrawon a gafodd eu hadnabod fel angen cymorth ychwanegol, ac mai hi oedd yr unig un o'r pedwar a fethodd i wella'n gyson a methu â chyrraedd y safonau gofynnol. Bu i'r pwyllgor wrthod y ddadl ei bod wedi'i rhoi mewn sefyllfa lle byddai'n siŵr o fethu. Bu iddo hefyd wrthod y dadleuon bod yna lygredigaeth neu fendeta wedi bod a ni welodd y pwyllgor gysylltiad rhwng gwaith i wella adeiladau a oedd yn mynd ymlaen yn yr ysgol a safon dysgu'r hawlydd. Er eu bod yn difaru nad oeddynt wedi cael cyfle i glywed gan yr hawlydd neu gynrychiolydd ar ran yr hawlydd, penderfynodd y pwyllgor i beidio â chefnogi apêl yr hawlydd.

62 Ysgrifennodd cadeirydd y pwyllgor apêl, Lyn Cosgrove, at yr hawlydd ar 6 Mai 2016 yn cadarnhau bod penderfyniad y pwyllgor disgyblu a diswyddo wedi'i gefnogi ac roedd y pwyllgor apêl wedi cyfarwyddo'r atebydd i derfynu ei chontract, yn dod i rym ar 31 Awst 2016.

63 Ar 16 Mai, ysgrifennodd Jennifer Hill, Cyfarwyddwr - Dysgu a Sgiliau, Cyngor Bro Morgannwg, yn cadarnhau terfyn cyflogaeth yr hawlydd a'i hysbysu, 'Yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd wedi'i chynnwys yn Rheoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009, byddwn nawr yn adrodd am y mater hwn i Gyngor y Gweithlu Addysg.'

64 Bu i ni glywed tystiolaeth bod yna waith adeiladu yn mynd ymlaen mewn ardaloedd wrth ymyl ei hystafell ddosbarth tra roedd gallu'r hawlydd yn cael ei asesu. Penderfynodd y tribiwnlys bod y pwyllgor apêl wedi dod i'r casgliad rhesymol nid oedd hyn yn ffactor a gyfrannodd at yr hawlydd yn methu â darparu gwersi effeithiol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gwbl i gefnogi honiadau eithafol Mrs Thompson bod yr atebydd wedi esgeuluso ei ddyletswydd gofal i staff a disgyblion, un ai trwy anwybyddu'r posibilrwydd bod yna asbestos peryglus yn yr ardal berthnasol neu fel arall.

65 Er gwaethaf rhywfaint o newidiadau o ran geiriad y safonau proffesiynol a ddefnyddiwyd i asesu'r hawlydd, nid oes unrhyw amheuaeth ym meddwl y tribiwnlys bod yr hawlydd wastad yn gwybod yn dda iawn yr hyn yr oedd yn ofynnol iddi gyflawni a chafodd adborth helaeth, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan y rhai oedd wedi'i harsylwi, yn rhoi gwybod iddi ym mha ffyrdd yr oedd hi'n methu â chyflawni'r gofynion hynny.

66 O 1999 hyd at ddiwedd 2015, ni ofynnodd yr hawlydd am unrhyw addasiadau o gwbl yng nghyswllt ei hanableddau, sef dyslecsia a cholli ei chlyw. Fel y dywedodd wrth Ann Rees, nid oedd yn ystyried bod ei dyslecsia yn effeithio ar ei dysgu. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan Rhys Jones, a ddywedodd wrth y pwyllgor apêl bod ganddo brofiad o athrawon gyda dyslecsia, ac nid oedd wedi'u hatal rhag darparu gwersi effeithiol. Roedd yr hawlydd wedi datblygu strategaethau ymdopi ei hun, fel gwefusddarllen.

67 Yn dilyn damwain ffordd yr hawlydd yn 2012, mi gafodd cadair wahanol, stôl ar gyfer gorffwys ei thraed a theclyn i'w helpu i deipio ac ysgrifennu'n fwy cyfforddus ('writing slope'). Pennwyd rhestr o addasiadau ar gyfer yr hawlydd gan Ann Rees (t. 1559), a'r addasiad mwyaf arwyddocaol oedd cynyddu'r amser PPA o 10% i 20%. Awgrymodd Dr Lever ac Ann Rees i'r hawlydd ddefnyddio meddalwedd arbenigol: un ai meddalwedd oedd yn ymateb i lais (Dr Lever) os oedd rhaid i'r hawlydd ysgrifennu adroddiadau, neu feddalwedd testun i leferydd (Ann Rees) i helpu gyda rhuglder darllen a dwyn pethau i gof. Roedd bleindiau wedi'u gosod yn ystafell ddosbarth yr hawlydd, yr un fath â'r rhai oedd wedi'u gosod yn holl ystafelloedd yr ysgol. Ni wnaeth yr hawlydd gwyno am y bleindiau hyn tan 2015. Roedd y tribiwnlys yn fodlon nid oedd unrhyw ddiffygion gyda'r bleindiau wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad yr hawlydd yn y dosbarth. Roedd cwyn yr hawlydd ynghylch lleoliad penodol ei bwrdd o fewn yr ystafell ddosbarth yn mater dibwys, a chyda cymorth os oedd angen, byddai'r hawlydd wedi gallu symud y bwrdd yn hawdd os oedd yn dymuno gwneud hynny. Yr unig amod gan Mr McNamara oedd ni ddylai bwrdd yr athro/athrawes gael ei leoli mewn man a fyddai'n atal y disgyblion rhag gweld y bwrdd gwyn yn glir.

68 Nodwyd uchod bod yr hawlydd wedi gwneud honiadau difrifol iawn, yn bennaf yn erbyn Christopher Elmore AS. Datganodd yr hawlydd, 'Rwy'n credu mai [Christopher Elmore] sydd wrth wraidd fy mhroblemau cyflogaeth yn yr YMCA ac yn yr ysgol, lle roedd yn lywodraethwr yn y ddau sefydliad. Rwy'n credu roedd hyn yn fendeta a gafodd ei ddal yn fy erbyn oherwydd materion yr oedd Mr Elmore yn rhan ohonynt...' (datganiad tyst, Chwefror 2018, paragraff 24). Y ffaith yw, roedd Mr Elmore yn aelod o fwrdd rheoli HWB YMCA Y Barri ar yr adeg yr oedd proses gyfreitha flaenorol yr hawlydd yn erbyn y corff hwnnw yn mynd ymlaen, ac roedd yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun y Barri rhwng mis Medi 2012 a mis Gorffennaf 2016. Ni gafodd y dystiolaeth sylw pellach heblaw am ym mis Ebrill 2016, pan gafodd Mr Elmore ei hysbysu gan yr atebydd am yr honiadau a wnaed yn ei erbyn gan yr hawlydd. Fodd bynnag, nid oedd yn rhan o

unrhyw fater yn ymwneud â'r drefn gallu ar gyfer yr hawlydd, ei diswyddiad nac ei hapêl.

69 Er mwyn parhau gyda’r ddadl hon, roedd rhaid i’r hawlydd fwrw ymlaen gan gyfeirio at y rhai hynny oedd wedi chwarae rhan, sef yr athrawon niferus a oedd wedi arsylwi ei gwersi, swyddogion o awdurdod yr atebydd a ddeliodd â'i hachos, a thrwy oblygiad, llywodraethwyr yr ysgol. Nid oedd yn ofn gwneud hynny, gan honni eu bod oll wedi cymryd rhan mewn llygredigaeth a chynllwynio i'w diswyddo.

70 Roedd yr honiad o lygredigaeth hyd yn oed wedi’i gyfeirio at gynrychiolydd undeb llafur yr hawlydd, Geraint Davies, ar y sail bod Mr McNamara wedi ysgrifennu at Sue Alderman ar 18 Hydref 2013, gan ddweud, 'Mae Emma Thompson wedi bod ar gynllun gefnogi. Cytunwyd ar y pecyn cymorth yn gyffredinol gyda'r undebau... mae Geraint Davies yn ddyn iawn. Gallaf gyfarfod gydag ef ar ben fy hun gan mai cymorth anffurfiol yw hyn. Os ydych yn meddwl y byddai’n well ichi fod yn bresennol mae croeso mawr ichi.’ Mewn gwirionedd, yr oll oedd Mr McNamara yn gwneud oedd holi a oedd Ms Alderman yn meddwl y dylai adran Adnoddau Dynol yr atebydd fod yn bresennol mewn cyfarfod rhyngddo ef a swyddog undeb llafur.

71 Er tegwch y rhai a gafodd eu hymosod arnynt yn gyhoeddus gan yr hawlydd, dylai'r tribiwnlys ddatgan mewn ffordd hollol glir ni chafwyd yr un darn o dystiolaeth gredadwy i gefnogi honiadau’r hawlydd am fendeta, llygredigaeth na chynllwynio.

**Y gyfraith**

72 Mae Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yn darparu:

**98 Cyffredinol**

(1) Wrth benderfynu, at ddibenion y Rhan hon p'un, a oedd diswyddo cyflogai yn deg ynteu'n annheg, mae gofyn i'r cyflogwr ddangos –

(a) y rheswm (neu, os oes mwy nag un, y prif reswm) dros ddiswyddo, ac

(b) ei fod yn... rheswm sy'n syrthio o fewn isadran (2) ...

(2) Mae rheswm yn syrthio o dan yr isadran hon os yw'n -

(a) ymwneud â gallu'r ... cyflogai i berfformio gwaith o'r fath y cafodd ei gyflogi gan y cyflogwr i'w wneud...

(4) Lle bo'r cyflogwr wedi bodloni gofynion isadran (1), mae ateb y cwestiwn a oedd y diswyddo yn deg ynteu'n annheg (gan ystyried a roddwyd gan y cyflogwr) –

(a) yn dibynnu, dan yr amgylchiadau (yn cynnwys graddau'r adnoddau gweinyddol a ddefnyddiwyd gan y cyflogwr) p'un a wnaeth y cyflogwr ymddwyn yn rhesymol ynteu'n afresymol wrth ei drin fel rheswm digonol i ddiswyddo'r cyflogai, a

(b) bydd yn cael ei benderfynu yn unol ag ecwiti a theilyngdod sylweddol yr achos.

73 Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn darparu:

**13 Gwahaniaethu uniongyrchol**

(1) Mae unigolyn (A) yn gwahaniaethu yn erbyn unigolyn arall (B) os, oherwydd nodwedd warchodedig, mae A yn trin B yn llai ffafriol nac y mae A yn trin, neu byddai'n trin, pobl eraill.

**20 Dyletswydd i wneud addasiadau**

(2) Mae'r ddyletswydd yn cynnwys y tri gofyniad canlynol:

(3) Mae'r gofyniad cyntaf yn ofyniad, lle bo darpariaeth, maen prawf neu ymarfer gan A yn rhoi unigolyn anabl dan anfantais sylweddol yng

nghyswllt mater perthnasol o'i gymharu ag unigolion nad ydynt yn anabl, i gymryd camau gweithredu rhesymol i osgoi'r anfantais.

(4) Mae’r ail ofyniad yn ofyniad, lle bo nodwedd ffisegol yn rhoi unigolyn anabl dan anfantais sylweddol yng nghyswllt mater perthnasol o'i gymharu ag unigolion nad ydynt yn anabl, i gymryd camau gweithredu rhesymol i osgoi'r anfantais.

(5) Mae’r trydydd gofyniad yn ofyniad, lle oni bai am ddarparu cymorth cynorthwyol, byddai unigolyn anabl dan anfantais sylweddol yng nghyswllt mater perthnasol o’i gymharu ag unigolion nad ydynt yn anabl, i gymryd camau gweithredu rhesymol i osgoi'r anfantais.

**26 Aflonyddu**

(1) Mae unigolyn (A) yn aflonyddu ar unigolyn (B) os –

(a) Bydd A yn ymddwyn mewn ffordd annymunol yng nghyswllt nodwedd warchodedig perthnasol, ac

(b) Pwrpas neu effaith yr ymddygiad yw -

(i) amharchu urddas B, neu

(ii) creu amgylchedd bygythiol, annymunol, difreiniol, difrïol neu sarhaus ar gyfer B.

**Cyflwyniadau**

74 Cyflwynodd Ms Criddle mai’r rheswm dros diswyddo'r hawlydd oedd ei gallu, ac nid oedd unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu fethiant ar ran yr atebydd yn ei ddyletswydd i wneud addasiadau. Cafodd y drefn gallu, trwy’r cam anffurfiol, y tri cham ffurfiol a’r estyniad o’r trydydd cam ffurfiol, ei gynnal mewn ffordd deg ac onest. Trwy gydol y broses, methodd yr hawlydd i ddangos y safon ofynnol o ran ei gallu a'r rheswm hwnnw yn unig oedd y rheswm dros ei diswyddo. Bu iddi ddadlau hefyd y gwnaed nifer o honiadau'r hawlydd o wahaniaethu ar ôl y terfyn amser.

75 Datganodd Mrs Thompson bod diswyddiad yr hawlydd o ganlyniad i fendeta a ddechreuwyd a sbardunwyd gan Christopher Elmore, oherwydd ei wrthdeimlad

tuag at yr hawlydd yn dilyn ei chyfreitha yn erbyn YMCA, a bod nifer o dystion yr atebydd wedi cymryd rhan yn y fendeta hon. Ymhlyg â hynny roedd nifer o gynhennau eraill, sef (i) bod yr hawlydd yn athrawes gymwys a oedd wedi perfformio'n fedrus yn ystod y drefn gallu, (ii) roedd y tystion proffesiynol a oedd wedi arsylwi'r hawlydd yn anonest yn eu hasesiadau o wersi'r hawlydd a'r dystiolaeth a roddwyd ganddynt i'r tribiwnlys hwn, (iii) roedd y broses o arsylwi gwersi'r hawlydd wedi'i 'pheiriannu' yn fwriadol fel bod yr hawlydd yn methu, trwy, er enghraifft, dewis y dosbarthiadau a oedd yn ymddwyn yn heriol iawn a dewis unigolion nad oedd yn arbenigo yn y Gymraeg i'w harsylwi, a (iv) bod Mr Elmore ei hun wedi bod yn gelwyddog pan ddywedodd nad oedd wedi chwarae rhan yng nghyflogaeth yr hawlydd yn Ysgol Gyfun Y Barri.

76 Cyflwynodd Mrs Thompson bod yr hawlydd wastad wedi bod yn athrawes dda, nid oedd yr atebydd eisiau cydnabod y ffaith hon, a byddai'r atebydd ond dan ddyletswydd i adrodd am diswyddiad yr hawlydd i Gyngor y Gweithlu Addysg os oedd y diswyddiad yn 'bendant'.

77 Cyflwynodd Mrs Thompson ymhellach bod y tribiwnlys wedi'i hatal rhag ymchwilio i gefndir gwrthdeimlad honedig Mr Elmore yn erbyn yr hawlydd.

**Trafodaeth a chasgliadau ar y materion gerbron y tribiwnlys**

78 O ran dadleuon yr atebydd bod rhai cwynion penodol 'ar ôl y terfyn amser', allan o barch i'r dadleuon cyflawn iawn a roddwyd ger ein bron, yn gyntaf rydym wedi ystyried teilyngdod y honiadau. Pe baem wedi ystyried bod unrhyw un ohonynt yn deilwng, byddwn wedi gorfod mynd ymlaen i ystyried a chawsant eu cyflwyno'n amserol. Nid yw hyn wedi codi yn yr achos hwn.

79 Rydym eisoes wedi nodi'n glir ein canfyddiad nad oedd fendeta, llygredigaeth na chynllwynio wrth wraidd diswyddiad yr hawlydd. Oni bai am Mr Elmore ei hun, nid oes unrhyw awgrym bod yna gymhelliad dirgel ar ran y nifer fawr o bobl a oedd yn rhan o achos yr hawlydd - athrawon yn Ysgol Gyfun Y Barri, Rhys Jones

a swyddogion yr atebydd - a fyddai'n esbonio eu dymuniad honedig i'w diswyddo; ac, fel yr ydym wedi canfod, ni chwaraeodd Mr Elmore unrhyw ran yn y broses o ddiswyddo'r hawlydd.

80 O ran honiad Mrs Thompson ei bod wedi’i hatal rhag ymchwilio i gwrthdeimlad honedig Mr Elmore yn y croesholi, penderfynodd y tribiwnlys bod angen i Mrs Thompson gadarnhau cysylltiad pendant rhwng Mr Elmore a'r penderfyniad a wnaed gan Ysgol Gyfun Y Barri neu'r atebydd, a gafodd effaith andwyol ar yr hawlydd. Os gellir gwneud hynny, efallai byddai modd dadlau roedd ganddo'r cyfle i ddylanwadu ar y penderfyniad, a pharhau â’r gwrthdeimlad yn ei herbyn. Efallai byddai cefndir y gwrthdeimlad honedig yn yr amgylchiadau hynny wedi dod yn berthnasol. Ond os nad oedd modd canfod cysylltiad rhwng Mr Elmore ac unrhyw benderfyniad a gafodd effaith andwyol ar yr hawlydd, yna roedd y cefndir yn parhau i fod yn amherthnasol. Gan nad oedd Mr Elmore wedi chwarae rhan yn unrhyw benderfyniad yng nghyswllt cyflogaeth yr hawlydd yn Ysgol Gyfun Y Barri, roedd unrhyw ddig yr oedd yn ei ddal yn ei herbyn yn amherthnasol i'n penderfyniad.

81 Daethom i’r casgliad roedd gan y panel diswyddo a’r pwyllgor apêl yr hawl rhesymol i ddod i’r casgliad bod yr athrawon a oedd wedi arsylwi'r hawlydd wedi cynnal eu hunain mewn ffordd broffesiynol ac onest, eu bod yn athrawon profiadol a oedd yn gymwys iawn i asesu perfformiad yr hawlydd a'u bod wedi cyflwyno barn onest a oedd yn haeddu parch. Roedd gan y panel diswyddo a’r pwyllgor apêl hawl resymol i ddod i’r casgliad bod y dystiolaeth yn ddigon cadarn.

82 Roedd gan y panel disgyblu a'r pwyllgor apêl yr hawl rhesymol i wrthod honiadau'r hawlydd bod y rhai oedd wedi'i harsylwi ac wedi gweld diffyg ynddi yn anghymwys i ddyfarnu ei dysgu gan nad oeddynt yn siaradwyr Cymraeg, yn athrawon Cymraeg nac yn arolygwyr o Estyn. Ger ein bron, strategaeth yr

hawlydd oedd i feio pobl eraill yn hytrach na chydnabod unrhyw ddiffygion ar ei rhan hi.

83 Nid oeddwn yn gallu osgoi ystyried ein amheuon cryf ynghylch dibynadwyedd yr hawlydd fel tyst. Cyflwynodd honiadau eithafol heb unrhyw dystiolaeth y tu ôl iddynt, gan ddarparu disgrifiadau anghyson a gorliwio'r ddamwain ffordd (t. 1634), gan ddisgrifio yn y dystiolaeth ei bod ‘bron wedi colli ei phen' (*near decapitation*) o'i gymharu â'r 'man anaf i'r pen' a nodwyd ar y pryd (t. 1335); ystyriwyd mai ‘cyflwr ffug’ oedd yr esboniad tebygol ar gyfer rhai o'i chwynion (t. 1630-31); a mynnodd ei bod yn parhau i ddioddef PTSD ymhell tu hwnt i fis Medi 2012, sef yr adeg olaf pan oedd unrhyw ddiagnosis meddygol i gefnogi hyn.

84 Trwy gydol y drefn gallu, cafodd yr hawlydd ei chynrychioli gan ei hundeb llafur, gan eithrio'r apêl pan oedd wedi gwrthod eu gwasanaethau.

85 Nid oedd y dystiolaeth yn yr achos hwn wedi dechrau sefydlu unrhyw achos o wahaniaethu neu aflonyddu ar sail anabledd. Nid oedd unrhyw elfen o’r ffordd gafodd yr hawlydd ei thrin yn ymwneud â'i hanabledd. Nid oedd ymddygiad yr atebydd yn cynnwys unrhyw un o'r pwrpasau a nodir yn adran 26(1) Deddf Cydraddoldeb 2010, ac nid oedd yn rhesymol dan yr amgylchiadau, yn cynnwys canfyddiad yr hawlydd, fod unrhyw ymddygiad ar ran yr atebydd wedi achosi unrhyw un o'r effeithiau hynny.

86 Cydnabuwyd gan yr atebydd fod gan Ysgol Gyfun Y Barri drefn gallu ac roedd yn ei wneud yn ofynnol i athrawon gyflawni safon dda o ddysgu. Roedd y rheiny yn ddarpariaethau, yn meini prawf neu’n ymarferion (PCPs) at ddibenion adran 20 Deddf Cydraddoldeb 2010. Ein dyfarniad yw nid yw'n bosibl 'gwrthod i wneud addasiadau rhesymol' gyfrif fel darpariaeth, maen prawf neu ymarfer o'r fath. Ni all methu â chydymffurfio â dyletswydd arwain at y ddyletswydd honno.

87 Er ein bod yn derbyn yn llawn yr oedd y drefn gallu siŵr o fod wedi bod yn brofiad a berodd straen i’r hawlydd – fel y byddai ar gyfer unrhyw athro/athrawes – nid oeddem yn gallu derbyn cynnen yr hawlydd bod y PCPs wedi’i rhoi mewn perygl o ddioddef chwalfa nerfol. Hyd yn oed os oedd wedi’i gadarnhau ei bod wedi dioddef chwalfa o'r fath (ac nid oedd hyn wedi digwydd) dywedodd yr hawlydd yn ei thystiolaeth (gweler paragraff 41 uchod) mai agor y drws i Mr McNamara oedd wedi achosi’r chwalfa nerfol. Yn yr un modd, ni ellir ei ystyried yn anfantais y byddai unigolyn anabl yn ei brofi o'i gymharu ag unigolion nad ydynt yn anabl.

88 Nid ydym yn meddwl yr oedd y drafftio o'r materion ar y pwynt hwn yn adlewyrchu un elfen o achos yr hawlydd ger ein bron. Un o’r dadleuon rhoddodd yr hawlydd ger ein bron oedd bod y PCPs, heb unrhyw addasiad, yn golygu y byddai hi’n debygol o fethu'r drefn ac felly byddai rhywfaint o addasu wedi bod yn rhesymol. Mae yna wrthddweud amlwg rhwng yr elfen hon o'r ddadl a'r datganiad bod yr hawlydd yn athrawes dda a llwyddiannus trwy gydol ei chyfnod yn yr ysgol a oedd yn ddioddefwr fendeta, a byddai wedi pasio'r drefn oni bai am hynny. Yn yr ail achos ni fyddai wedi bod angen unrhyw addasiad i'r drefn. Rydym wedi ystyried pob un o'r addasiadau unigol a ofynnwyd amdanynt (gweler y rhestr o faterion, paragraff 12 (a-j)) ac wedi edrych ar y ddwy elfen o’i dadl a nodir uchod.

89 Nid oedd unrhyw dystiolaeth foddhaol bod y PCPs yn rhoi’r hawlydd dan anfantais oherwydd ei dyslecsia neu’r nam ar ei chlyw. Dywedodd yr hawlydd wrth y Ganolfan Ddysgu Dyslexia Action yng Nghaerdydd nid oedd ei dyslecsia yn effeithio ei dysgu (t. 1556ff.), ond bod ysgrifennu cynlluniau gwersi ac adroddiadau yn Saesneg yn peri anhawster iddi. Mae hyn yn ymddangos yn wir oherwydd roedd yr hawlydd wedi bod yn dysgu, gyda dyslecsia (a'i nam ar y clyw) ers 1999 ac ni ofynnodd am unrhyw addasiadau tan hanner ffordd drwy 2015. Nid oedd unrhyw ofyniad yn y drefn gallu yn gofyn am rywbeth yn ychwanegol i lwyth dysgu arferol yr hawlydd.

90 Pan ofynnwyd am addasiadau, bu i'r atebydd eu hystyried a rhoddodd rhai ohonynt ar waith. Yn bwysig iawn, cafodd yr hawlydd dwywaith yr amser PPA arferol ar gyfer athro/athrawes; ac yn 2015, pan ofynnwyd am ddogfennau wedi'u hargraffu ar bapur glas, cafodd hyn ei wneud. Er nid ydym yn fodlon yr oedd yn ofyniad rhesymol i’r atebydd gymryd unrhyw gamau gweithredu yn yr achos hwn, roedd yr amser ychwanegol a roddwyd yn hael iawn. O ystyried natur gwaith yr hawlydd, nid ydym yn meddwl yr oedd yn ofyniad rhesymol i'r atebydd ddarparu meddalwedd arbenigol, p'un a oedd yn feddalwedd a oedd yn ymateb i lais neu'n feddalwedd testun i leferydd. Roedden ni’n fodlon nad oedd yn ofyniad rhesymol i’r atebydd wneud unrhyw un o’r addasiadau eraill a ofynnwyd amdanynt.

91 Nawr byddwn yn ystyried y gŵyn ynghylch diswyddo annheg (gweler y rhestr o faterion, paragraffau 15-17). Roedd un rheswm yn unig ar gyfer diswyddo’r hawlydd, sef, yn dilyn trefn gallu drwyadl a oedd yn hynod onest a theg, daethpwyd i'r casgliad nad oedd dysgu'r hawlydd wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol gan athrawes ddosbarth. Cafodd yr hawlydd ddigonedd o gyfleoedd i wella ei pherfformiad a chafodd ei rhybuddio y gallai methu â gwneud hynny arwain at iddi’n cael ei diswyddo. Roedd y rheswm felly yn ymwneud â gallu’r hawlydd. Ni phenododd Ysgol Gyfun Y Barri olynydd parhaol ar gyfer yr hawlydd tan fis Medi 2016, ac felly nid oedd y penderfyniad i'w diswyddo a gwrthod ei hapêl o reidrwydd yn anochel.

92 Rydym yn ddigon bodlon dan yr holl amgylchiadau bod y panel disgyblu a diswyddo a'r pwyllgor apêl wedi gweithredu'n rhesymol wrth drin diffyg gallu’r hawlydd fel rheswm digonol dros ei diswyddo. Nid oedd y rheswm wedi’i ddylanwadu’n negyddol gan unrhyw gymhelliad amhriodol.

93 Roedd rhaid i'r atebydd gyfeirio manylion achos yr hawlydd at Gyngor y Gweithlu Addysg yn dilyn ei diswyddiad oherwydd diffyg gallu, oherwydd gofyniad statudol a roddwyd ar yr atebydd.

94 Yr unig agwedd ar drefn yr atebydd sydd angen ei drafod ymhellach yw amseriad y gwrandawiad apêl. Rhaid i ni gadw mewn cof mai'r prawf yw p'un a oedd yr atebydd wedi gweithredu'n rhesymol. Daeth y llythyr dyddiedig 10 Fawrth i law ar 14 Mawrth. Yn unol â pharagraff 7.4 o'r drefn dylai fod yr apêl wedi'i gwrando o fewn 10 diwrnod; hynny yw (gan eithrio gwyliau'r pasg) ddim hwyrach na 12 Ebrill, sef ail ddiwrnod tymor yr haf. Cafodd yr apêl ei gwrando ar 29 Ebrill, 13 diwrnod gwaith yn hwyr. Os nad oedd yr apêl wedi'i gwrando, fel dadleuodd Mrs Thompson, yna mae'n ymddangos inni y sefyllfa fyddai bod y penderfyniad i'w diswyddo wedi sefyll, ac ni fyddai'r hawlydd wedi cael cyfle i apelio. Nid ydym yn meddwl bod dadl Mrs Thompson y byddai'r apêl wedi'i 'hennill' drwy ddiffyg a byddai'r diswyddiad wedi'i wrthdroi yn gywir. Gan gadw mewn cof cymhlethdod y materion a'r honiadau a godwyd, yr ohebiaeth hynod hirfaith a gyflwynwyd gan Mrs Thompson (cyn ac ar ôl i'r apêl gael ei chyflwyno), y gwyliau Pasg yng nghanol y broses, yr angen i recriwtio llywodraethwyr i wirfoddoli a'r cais gan undeb llafur yr hawliad i ohirio'r apêl am gyfnod o wythnos, nid ydym o'r farn y gellir beirniadu'r atebydd am fod yn afresymol drwy drefnu'r apêl ar y dyddiad hwyrach. Dewis yr hawlydd oedd peidio â mynychu a pheidio â chael cynrychiolaeth yn yr apêl. Nid oedd y ffaith bod yr apêl wedi'r gwrando'n hwyr yn golygu bod diswyddo'r hawlydd yn annheg.

95 Yn ein dyfarniad, rydym o'r farn nid oes sail i'r tri deg chwech o resymau (gweler y rhestr o faterion, paragraff 16) pam y mae'r hawlydd yn honni bod ei diswyddiad wedi bod yn annheg. Maent yn ymddangos fel cynigion heb gyfiawnhad i feirniadu eraill yn hytrach na chydnabod a mynd i'r afael â'r beirniadaeth a gyfeiriwyd at yr hawlydd ei hun.

## Casgliad

96 Gwrthodir cwynion yr hawlydd.

Barnwr Cyflogaeth S J Williams
Dyddiedig: 30 Ionawr 2019

RHESYMAU WEDI'U HANFON AT Y PARTION AR

………30 Ionawr 2019…………

………………………………………………
AR RAN YSGRIFENNYDD Y TRIBIWNLYSOEDD CYFLOGAETH